**Rhys T Evans**

---

| | |
|---|---|
| **From:** | [redacted] |
| **Sent:** | 25 June 2026 23:19 |
| **To:** | EED Forward Planning; EED Forward Planning |
| **Subject:** | Gwrthwynebiad - (SR/069/001 a SR/069/003) |
| | |
| **Follow Up Flag:** | Follow up |
| **Flag Status:** | Flagged |

**Caution:** This is an external email and did not originate from within the Council. Please take care when clicking links or opening attachments. When in doubt, use the 'Report Message' button.

**Rhybudd:** E-bost allanol yw hwn ac nid oedd yn tarddu o'r Cyngor. Byddwch yn ofalus wrth glicio dolenni neu atodiadau agoriadol. Pan fyddwch yn ansicr, defnyddiwch y botwm 'Report Message'.

**Safle: Tir y tu ôl i Clos Benallt Fawr, Fforest (SR/069/001 a SR/069/003)**

Dymunaf gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i gynnwys safleoedd SR/069/001 a SR/069/003 yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin.

**Rhesymau dros y Gwrthwynebiad**

**1. Angen Datblygu Heb ei Brofi**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CCC) eisoes wedi asesu nad oes angen tir ychwanegol yn ardal Fforest a'r Hendy. Wrth wrthod ehangu pellach ar safleoedd a ddyrannwyd eisoes, penderfynodd CCC nad oedd safle SR/069/003 yn angenrheidiol. Dylid blaenoriaethu defnydd o eiddo gwag ar draws y sir cyn dyrannu tir newydd.

Wrth ganiatáu estyniad i Clos Benallt, pwysleisiodd y pwyllgor cynllunio fod angen cartrefi i "bobl leol". Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw mwyafrif y cartrefi newydd yn cael eu meddiannu gan bobl leol.

**1b. Effaith ar yr Iaith Gymraeg**
Fel teulu Cymraeg, rydym wedi gweld dirywiad amlwg yn yr iaith Gymraeg yn y gymuned, yn enwedig yn Fforest. Prin iawn o breswylwyr newydd yn rhan estynedig Clos Benallt sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r un patrwm yn debygol yn yr Hendy.

Mae hyn yn destun pryder mawr. Mae penderfyniadau cynllunio dro ar ôl tro yn cyfrannu at ddirywiad ieithyddol. Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i TAN 18 a'r data o'r Cyfrifiad diweddaraf.

Credwn y dylid cynnal arolwg trylwyr, tryloyw o gefndir ieithyddol preswylwyr newydd dros y 20 mlynedd diwethaf.

**2. Natur Anaddas y Tir**
Mae'r tir yn wlyb ac yn dir pori dirlawn gyda phroblemau draenio sylweddol. Mae ffynhonnau tanddaearol yn cadw'r tir yn gyson wlyb, gan ei wneud yn anaddas ar gyfer adeiladu.

**3. Hanes Problemau Adeiladu a Llifogydd**
Yn ystod datblygiad diwethaf Clos Benallt, bu problemau difrifol gyda sylfeini yn suddo. Roedd angen ailadeiladu rhai ohonynt gyda mesurau ychwanegol.

Mae'r tir yn ymestyn i lawr at afon Llwchwr, ardal sy'n adnabyddus am lifogydd rheolaidd. Mae tystiolaeth hanesyddol a chyfoes yn dangos hyn yn glir.

**4. Risg Llifogydd (TAN 15)**
Mae gan CCC ddyletswydd o dan TAN 15 i sicrhau nad yw datblygiad yn cynyddu risg llifogydd na phroblemau dŵr wyneb, yn lleol nac yn ehangach.

**5. Methiant Seilwaith Draenio Presennol**
Mae'r systemau atal dŵr yn natblygiad diweddar Clos Benallt eisoes wedi methu ac wedi gorlifo. Mae hyn yn codi pryderon sylweddol ar gyfer unrhyw ddatblygiad pellach.

**6. Effaith ar Drafnidiaeth (TAN 18)**
Mae'r datblygiad diweddar wedi cynyddu traffig a thagfeydd yn sylweddol. Mae'r A48 a'r A4138 yn cario tua 8,000 o gerbydau bob dydd, ac mae ffyrdd lleol fel Fforest Road eisoes yn beryglus oherwydd tagfeydd a pharcio ar y ffordd.

Mae mynediad i Clos Benallt eisoes yn broblem, a bydd datblygiad pellach yn gwaethygu'r sefyllfa.

**7. Effaith Amgylcheddol (SSSI)**
Mae'r safle ger ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Byddai datblygu'r tir hwn yn niweidiol i fioamrywiaeth ac yn gyfystyr â fandaliaeth amgylcheddol.

**8. Colli Tir Amaethyddol a Chymeriad Gwledig (TAN 5)**
Mae'r tir yn dir pori parhaol gyda ffiniau naturiol clir. Mae'n hanfodol cadw'r tir cefn gwlad agored a diogelu cymeriad gwledig yr ardal.

**9. Effaith ar Ansawdd Bywyd Preswylwyr**
Fel preswylydd, profais straen sylweddol yn ystod y gwaith adeiladu diwethaf. Roedd lorïau'n ciwio am gyfnodau hir gyda pheiriannau ymlaen, gan achosi aflonyddwch parhaus.

Dylid rhoi ystyriaeth i effaith unrhyw ddatblygiad pellach ar breswylwyr presennol.

**10. Gor-ddatblygu a Seilwaith Dan Straen**
Mae Fforest a'r Hendy eisoes wedi'u gor-ddatblygu. Mae'r seilwaith presennol yn annigonol: ffyrdd cul, traffig trwm, a diffyg gwasanaethau lleol.

Mae'r ardal hefyd ar ffin Sir Gaerfyrddin a Dinas Abertawe, sy'n cynyddu'r effaith gronnus o ddatblygiadau. Mae cynnig datblygiad o tua 700 o dai ar ochr arall yr afon Llwchwr yn gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Nid yw'r seilwaith yn gynaliadwy.

---

**English Version**
**Objection to Allocation of Land in the Local Development Plan (LDP)**

**Site: Land behind Clos Benallt Fawr, Fforest (SR/069/001 and SR/069/003)**

I wish to submit a formal objection to the inclusion of sites SR/069/001 and SR/069/003 in the Carmarthenshire Local Development Plan.

**Grounds for Objection**

1. **Lack of Demonstrated Need**
   Carmarthenshire County Council (CCC) has previously concluded that no additional land is required in the Fforest and Hendy area. Vacant properties across the county should be prioritised before allocating new land.

Despite intentions to provide homes for "local people," evidence suggests this has not been achieved.

1. **Impact on the Welsh Language**
   The Welsh language has declined significantly in the area. New developments show very low levels of Welsh-speaking residents.

Careful consideration must be given to TAN 18, and a detailed linguistic impact assessment should be undertaken.

1. **Unsuitable Land Conditions**
   The land is wet, poorly drained grazing land with underground springs, making it unsuitable for development.
2. **Historical Drainage and Flooding Issues**
   Previous construction encountered serious foundation problems. The land near the River Llwchwr is historically prone to flooding.
3. **Flood Risk (TAN 15)**
   CCC must ensure that development does not increase flood risk or surface water issues.
4. **Failure of Existing Infrastructure**
   Drainage systems at the recent development have already overflowed, raising concerns for future development.
5. **Traffic and Transport Concerns (TAN 18)**
   Traffic congestion is already severe, with approximately 8,000 vehicles daily on nearby roads. Further development would worsen safety and accessibility.
6. **Environmental Impact (SSSI)**
   The site borders a Site of Special Scientific Interest. Development would harm biodiversity and protected land.
7. **Loss of Rural Character (TAN 5)**
   The land forms part of the natural rural boundary and should be preserved to protect the landscape.
8. **Impact on Residents**
   Construction has previously caused significant disruption, including prolonged noise and traffic issues affecting quality of life.
9. **Overdevelopment and Infrastructure Strain**
   The area is already overdeveloped, with inadequate infrastructure. Additional nearby developments, including proposals in Swansea, will exacerbate cumulative impacts.

## Closing Statement / Datganiad Cloi

Gofynnaf yn garedig i chi gadarnhau eich bod wedi derbyn y gwrthwynebiad hwn.

I kindly request written acknowledgement of receipt of this objection to the proposed allocation of land behind Clos Benallt Fawr, Fforest, within the LDP

Yn gywir

Dr Non Evans

Sent from the all-new AOL app for iOS